Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Cwm Glas

Rhodfa Colwyn
Winch Wen
SA1 7EN

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cwm Glas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Cwm Glas |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 255 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 203 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 32 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 41.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 35.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 13/03/2024 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 12/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/06/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas yn darparu amgylchedd cynnes, gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn ffynnu’n emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae’r perthnasoedd gwaith anogol rhwng staff a disgyblion yn golygu bod disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at ei gilydd.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn rhoi cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion, ac mae staff yn cynnwys rhieni a’r gymuned leol yn llwyddiannus iawn mewn gweithio i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae’r ethos teuluol sy’n cael ei greu yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael ei werthfawrogi gan rieni a disgyblion.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA), yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn. Mae staff yn datblygu medrau siarad disgyblion yn dda, ac mae hyn yn ffocws i’w gwaith pan fydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol. At ei gilydd, mae’r addysgu’n rhoi ystyriaeth dda i anghenion disgyblion ac mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion i fynd â’u dysgu ymlaen. Mae’r ymagwedd ysgol gyfan at addysgu mathemateg yn datblygu hyder a medrau disgyblion, yn enwedig mewn gwaith rhif, yn llwyddiannus.

Mae gwaith i ddatblygu cwricwlwm yr ysgol yn symud ymlaen yn dda, ac mae athrawon wedi ystyried yn ofalus sut i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Megis dechrau datblygu y mae’r gwaith i sicrhau dilyniant mewn meysydd dysgu eraill. At ei gilydd, mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu cyfleoedd dysgu cyfoethog a chreadigol sy’n cymell disgyblion i ddysgu. Mae estyniadau i’r cwricwlwm, fel caffi a banc yr ysgol, yn darparu profiadau dysgu ystyrlon a bywyd go iawn sy’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o faterion ariannol yn dda.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryf. Mae arweinwyr a staff yn cynllunio ac yn cydlynu cymorth i ddiwallu anghenion lles a dysgu unigol disgyblion yn effeithiol.

Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am waith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn darparu her effeithiol, yn rheoli cyllid yr ysgol yn effeithiol ac yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn briodol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Datblygu cwricwlwm yr ysgol ymhellach i sicrhau dilyniant ar draws pob maes dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Cwm Glas yn amgylchedd cynnes, gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn ffynnu'n emosiynol ac yn gymdeithasol. Mae perthnasoedd ymddiriedus rhwng staff a disgyblion yn meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn, gan wneud i bob un o'r disgyblion deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sensitif, bwrpasol a dynamig. Mae hi'n gweithio gyda'r tîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr i ddarparu cyfeiriad strategol cryf a sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i les disgyblion. Mae hi wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n cynnwys disgyblion, rhieni a staff yn y broses. Caiff y ffocws hwn ar fod yn un teulu mawr ei ddeall yn dda gan ddisgyblion, ac fe gaiff ei bwysleisio trwy eu hymrwymiad i werthoedd craidd yr ysgol a'u hymddygiad parchus tuag at ei gilydd a staff yr ysgol.

### Ciplun 1: Hyrwyddo cysylltiadau agos a chefnogol â rhieni

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau cryf â rhieni a'r gymuned ehangach, gan hyrwyddo ethos hynod gynhwysol lle caiff teuluoedd eu cynnwys yn ystyrlon ym mywyd yr ysgol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn ymestyn dealltwriaeth rhieni o addysg eu plentyn ac yn cyfrannu'n sylweddol at les a hyder disgyblion, a'u parodrwydd ar gyfer dysgu.

Mae cyflymdra da i'r addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol, ac maent yn cael eu cynllunio'n ystyriol. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn ystyried ystod anghenion disgyblion ac yn darparu gweithgareddau difyr. Maent yn cynnig cymorth parhaus i symud y dysgu ymlaen ac yn defnyddio technegau holi effeithiol i asesu ac ymestyn dysgu'r disgyblion. Mae ymagwedd gyson ac effeithiol at asesu ar gyfer dysgu yn cael ei datblygu'n briodol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion yn y Cyfleuster Addysgu Arbenigol (CAA), yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fodelau rôl iaith effeithiol. Maent yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion siarad am eu dysgu, a cheir ffocws priodol ar ddatblygu medrau siarad y disgyblion ieuengaf. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd effeithiol, ac mae disgyblion hŷn yn cyfathrebu'n hyderus mewn ystod o gyd-destunau. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ac addysgu Cymraeg, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg.

Mae staff yn defnyddio ymagwedd strwythuredig at ddarllen, sy'n annog disgyblion iau i ddatblygu diddordeb mewn llyfrau a storïau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn dechrau adnabod seiniau llythrennau ac enwau, ac yn darllen geiriau cyffredin yn briodol. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn dda gyda mynegiant, ac mae ganddynt y medrau i resymu a dod i gasgliad ynghylch ystyr o destunau. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol ar draws ystod o genres a chyd-destunau ystyrlon.

At ei gilydd, mae staff yn darparu ystod bwrpasol a diddorol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus ac yn fedrus wrth ddefnyddio ystod o gymwysiadau digidol. Maent yn cymhwyso'u medrau'n dda i gefnogi ac ymestyn eu dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon wedi cyflwyno ymagwedd ysgol gyfan at addysgu mathemateg. Maent yn adeiladu ar ddealltwriaeth a gwybodaeth flaenorol disgyblion ac yn darparu adnoddau ymarferol buddiol i gefnogi eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o rif, ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio'r wybodaeth hon i gwblhau ystod o gyfrifiadau pen ac ysgrifenedig yn effeithiol.

### Ciplun 2: Datblygu dealltwriaeth disgyblion o lythrennedd ariannol

Mae'r ysgol yn darparu profiadau bywyd go iawn o ansawdd da trwy'r 'Clic Café' ac 'Acoins Bank' ar gyfer disgyblion i ddatblygu hyder a medrau wrth drin arian. Mae disgyblion yn cyflawni eu rolau fel derbynyddion arian, goruchwylwyr, gweinyddion a rheolwyr gyda lefelau uchel o annibyniaeth, ac yn cymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am weithredu'r cyfleusterau yn llwyddiannus. Maent yn esbonio'n fanwl sut mae'r gwasanaethau'n gweithredu ac yn ymgysylltu'n bwrpasol â chleientiaid. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo disgyblion iau i lenwi slipiau talu i mewn.

Mae athrawon wedi creu cwricwlwm yn ddiwyd sy'n bodloni anghenion a diddordebau disgyblion. Maent wedi ystyried sut orau i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd ar draws meysydd ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol y cwricwlwm, ac wedi nodi'n gywir fod angen ymestyn y gwaith hwn i feysydd eraill y cwricwlwm. Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau celfyddydau mynegiannol, ac mae disgyblion yn datblygu medrau motor manwl trwy waith celf ystyrlon, wedi'i ysbrydoli gan arlunwyr lleol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn canu'n frwdfrydig, a llawer ohonynt yn dysgu canu offeryn. Mae cymryd rhan mewn digwyddiadau a chyngherddau lleol yn rhoi ymdeimlad o ddiben a mwynhad i ddisgyblion wrth iddynt arddangos eu medrau.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddod yn empathig ac yn ystyriol tuag at bobl eraill, parchu gwahaniaethau a deall pwysigrwydd cydraddoldeb. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu i fod yn unigolion hyderus sy’n gwybod am bwysigrwydd perthnasoedd iach a sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel. Mae cyfleoedd defnyddiol i gymryd rhan mewn prosiectau menter a chlywed gan ymwelwyr yn galluogi disgyblion i ddechrau deall y berthynas rhwng addysg a rhagolygon swyddi yn y dyfodol, ac ymgymryd â gweithgareddau sy’n eu helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol. Mae staff yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gyfrannu at fywyd yr ysgol trwy gymryd rhan weithredol mewn grwpiau llais y disgybl ac arweinyddiaeth.

Ceir darpariaeth gref ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae arweinwyr yn cynllunio ac yn cydlynu cymorth yn effeithiol ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod dulliau’n cael eu teilwra’n ystyriol i ddiwallu anghenion lles a dysgu unigol disgyblion. Mae dull cadarn yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn sail i hyn, lle caiff lleisiau disgyblion a rhieni eu gwerthfawrogi’n weithredol. O ganlyniad, mae’r ysgol yn addasu darpariaeth yn fedrus i sicrhau bod pob un o’r disgyblion ag ADY, gan gynnwys y rhai yn y CAA a’r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo.

Mae’r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff a disgyblion. Mae hi’n arwain trwy esiampl ac yn annog pawb i fod y gorau y gallant fod. Mae’r ymagwedd hon wedi meithrin gwaith tîm cryf ac wedi ysbrydoli staff i ymgymryd â chyfrifoldebau a chydweithio i gyflawni blaenoriaethau’r ysgol. Mae hefyd wedi annog disgyblion i fod yn uchelgeisiol a manteisio ar gyfleoedd dysgu.

Mae arweinwyr yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgu proffesiynol, ac mae staff yn gwneud y gorau o’r cyfleoedd amrywiol i ddatblygu eu harbenigedd. Mae’r rhan fwyaf o’r staff addysgu wedi gwneud gwaith ymchwil i sut i wneud addysgu’n fwy effeithiol, ac wedi rhannu eu harfer dda gyda chydweithwyr. Mae’r gwaith hwn yn dechrau creu ymagwedd fwy cyson at addysgu ac asesu ar draws yr ysgol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o ba mor dda y mae’r ysgol yn perfformio. Mae gweithgareddau monitro yn bwrpasol ac yn rhoi darlun dibynadwy o gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu.

Mae llywodraethwyr yr ysgol yn meddu ar wybodaeth dda am ei gwaith. Cânt eu hysbysu’n dda gan arweinwyr. Maent yn darparu her effeithiol a chymorth gwerthfawr i arweinwyr ac yn gofyn cwestiynau perthnasol am waith yr ysgol. Maent yn casglu tystiolaeth yn uniongyrchol ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn briodol.

Mae gan arweinwyr a llywodraethwyr yr ysgol brosesau cadarn i reoli cyllid yr ysgol yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau wedi eu hystyried yn ofalus sydd o fudd i bob disgybl. Mae’r ysgol yn defnyddio’i chyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn dda i leihau anghydraddoldeb a gwella lles disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

# Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025